**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Health and Social Care Committee**

**Ann Jones AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

18 Tachwedd 2014

Annwyl Ann,

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd ("cyffuriau penfeddwol cyfreithlon")**

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 10 Mehefin 2014 ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor i sylweddau seicoweithredol newydd, dyma ddiweddariad ar waith y Pwyllgor hyd yn hyn.

Cafodd y Pwyllgor gyfanswm o 20 o gyflwyniadau tystiolaeth ysgrifenedig fel rhan o'r ymchwiliad a gellir cael y manylion ar ein gwefan. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ysgrifenedig ar y cyd â'r arolwg a drefnwyd gan y tîm Allgymorth. Cafodd y Pwyllgor dros 1,000 o ymatebion i'r arolwg, ac roedd cyfran sylweddol ohonynt gan blant a phobl ifanc.

Ym mis Hydref, cynhaliodd y Pwyllgor waith ymgysylltu allanol ym Merthyr Tudful a Wrecsam a oedd yn cynnwys ymweliadau safle a grwpiau ffocws gyda defnyddwyr a darparwyr gwasanaethau. Mae'r nodiadau o'r ymweliadau safle a'r grwpiau ffocws wedi helpu i lywio'r sesiynau tystiolaeth lafar.

Dechreuodd y sesiynau tystiolaeth lafar gyda chynrychiolwyr elusennau, byrddau iechyd, llywodraeth leol, yr heddlu a charchardai ym mis Tachwedd a chynhelir y sesiwn olaf gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 26 Tachwedd 2014.

Gobeithio bod y wybodaeth yn ddefnyddiol. Gwnaf yn sicr eich bod yn cael copi o adroddiad y Pwyllgor ar ol ei gyhoeddi yn y flwyddyn newydd.

Yn gywir,



**David Rees AC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**